

YMATEB I DDIFFYG CYDYMFFURFIO

Proses diffyg cydymffurfio a gorfodi

Math	Canllawiau
Fersiwn	V1.0
Awdur	AGIC
Dyddiad	Awst 2015
Dyddiad Adolygu	Awst 2016

Noder: Mae'r canllawiau hyn yn disodli'r holl ganllawiau gorfodi blaenorol, a chedwir golwg arnynt o hyd.

Cynnwys

Tudalen

Introduction	1
Approach to Regulation.....	2
Flowchart 1: How we respond to non-compliance.....	4
Flowchart 2: How we handle services of concern	5
Note 1 – Technical or isolated failures.....	6
Note 2 – Poor outcomes and/or systemic failings	6
Note 3 – Matters requiring urgent action.....	7
Note 4 – Non compliance notice	8
Note 5 – Provider meeting	12
Note 6 – Service of concern.....	13
Appendix 1	20
Low risk examples – notify in report.....	20
High risk examples – may need non compliance notice	20

Cyflwyniad

Cefndir

Rheoleidiwr y gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru yw Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), ac mae'n cyflawni'r swyddogaeth honno ar ran Gweinidogion Cymru, sydd wedi'u penodi'n awdurdod cofrestru trwy awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae AGIC yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddarparwyr cofrestradwy ar gyfer gofal iechyd annibynnol yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 ("y Ddeddf") a rheoliadau a safonau cysylltiedig.

Mae cydymffurfio â'r darpariaethau statudol hyn a glynu wrth safonau yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir i gleifion yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd.

AGIC sy'n gyfrifol am gofrestru, adolygu ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, gan gynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol ac asiantaethau meddygol annibynnol. Er budd cleifion, mae AGIC yn anelu i helpu gwasanaethau i wella a dileu arfer drwg. Pan fydd darparwyr gwasanaeth yn methu â bodloni eu hymrwymiaadau cyfreithiol, rhoddir ystyriaeth i gymryd camau gorfodi priodol. Mae hyn yn cynnwys:

- Cam gweithredu rheoleiddiol **sifil**¹
- Erlyniad **troseddol**²

Mewn amgylchiadau eithriadol, ac fel modd o sicrhau diogelwch cleifion, mae'n bosibl y bydd AGIC yn ei gweld hi'n briodol gwneud cais i'r llys am waharddeb.

Diben

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r broses mae AGIC yn ei dilyn pan fydd yn ystyried cymryd cam gweithredu yn erbyn unrhyw wasanaeth gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Nid yw'n disodli unrhyw ofynion statudol perthnasol, a phe bai gwrthdaro rhwng y ddau, yna'r gofynion statudol perthnasol sydd drechaf.

Noder: Nid yw AGIC yn gallu cymryd camau gorfodi yn erbyn gwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae dogfen Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru yn amlinellu sut y caiff pryderon am wasanaethau'r GIG eu hymdrin.

¹Gellir ond cymryd camau sifil yn erbyn gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru ag AGIC, a gall gynnwys amrywio neu osod amodau, neu ganslo cofrestriad yn y pen draw.

²Gellir cymryd camau troseddol yn erbyn gwasanaethau cofrestredig neu anghofrestredig. Gellir ond ymgymryd ag erlyniad troseddol pan fydd rheoliad wedi'i dorri, neu adran o'r Ddeddf wedi'i thorri.

Ein ffordd o reoleiddio

Mae rheoliadau a safonau manwl yn rheoli'r modd o ddarparu gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, a'r rhain yw:

- Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 (“y Rheoliadau 2011”)
- Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (“y Rheoliadau Deintyddiaeth”)
- Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002 (“y Rheoliadau Cofrestru”)
- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru (“y SGC”)
- Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2011 (“y Rheoliadau Ffioedd”)

Mae AGIC yn disgwyl bod y rheiny sydd wedi'u cofrestru i redeg gwasanaethau yn gymwys i wneud hynny ac yn gallu cydymffurfio â disgwyliadau cyfreithiol.

Rydym yn cydnabod bod amryw o gyfleoedd i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu rhedeg yn ddiogel ac yn unol â gofynion y gyfraith. Mae'r rhain yn cynnwys gwneud gwiriadau wrth gofrestru'n wreiddiol, rhoi cyngor yn ystod archwiliadau, a gwaith AGIC gydag asiantaethau eraill megis comisiynwyr a rheoleiddwyr eraill. Nid yw sicrhau gwelliant a chydymffurfiaeth felly wedi ei gyfyngu i AGIC yn arfer ei bwerau mewn perthynas ag achosion sifil a throeddol.

Mae ein harolygiadau yn rhoi pwyslais ar brofiadau a chanlyniadau pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Pan fydd y canlyniadau i bobl yn sâl, byddwn yn gweithredu, a gallai hyn gynnwys cyflwyno hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio neu osod amodau ar frys ar gofrestriad gwasanaeth. Caiff ein hymateb i ddiffyg cydymffurfio ei lywio gan yr amodau allweddol canlynol:

1. **Cyfrifoldeb y darparwr:** Mae darparwyr gwasanaethau yn gyfrifol am gydymffurfio â rheoliadau. Oni bai bod angen camau gweithredu brys, bydd darparwyr yn cael cyfle i gywiro ffaeleddau.
2. **Cymesuredd:** Pan fydd cam yn cael ei gymryd gan AGIC, bydd yn gymesur â'r canlyniadau i bobl sy'n derbyn gwasanaethau, â'r risg i'w hiechyd a'u lles, ac â pharodrwydd y darparwr i gydymffurfio. Ein blaenoriaeth yw canolbwyntio ar y meysydd hynny lle bo pryder neu risg benodol.
3. **Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd:** Bydd y camau gweithredu a gymerir gan AGIC yn eglur, yn gyson, yn amserol, yn deg, ac yn dryloyw.
4. **Camau gweithredu cynyddol:** Bydd darparwyr sy'n methu'n gyson â chydymffurfio â rheoliadau yn wynebu camau gorfodi cynyddol, gan gynnwys gweithredu i ganslo cofrestriad.
5. **Camau gweithredu cydgysylltiedig:** Bydd AGIC yn parhau i weithio gyda chomisiynwyr a rheoleiddwyr eraill i sicrhau bod unrhyw gam

gweithredu wedi'i gydgyssylltu a bod gwybodaeth a phryderon yn cael eu rhannu. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd pryderon diogelu neu faterion iechyd a diogelwch yn dod dan oruchwyliaeth rheoleiddwyr eraill. Gweithiwn yn agos â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn rhannu pryderon am ymddygiad proffesiynol staff a rheolwyr gwasanaethau.

Mae ein ffordd o weithio'n cydnabod y gwerth o roi cyngor i ddarparwyr a phwysigrwydd cyfarfod â darparwyr pan fydd anhawster wrth ddatrys problemau cydymffurfiaeth. Er bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn llwyddo i gydymffurfio â rheoliadau, mae'n cydnabod bod nifer fach yn methu â gwneud hynny dro ar ôl tro, yn methu rhoi eu hymrwymiaadau ar waith, ac yn methu â chynnal y gwelliannau gofynnol.

Sicrhawn fod systemau ar waith i gynnig atebolrwydd ar gyfer y cam gweithredu a gymerir gennym ac i adolygu effeithiolrwydd ein gweithgaredd yn rheolaidd.

Nodyn am derminoleg

Yn y ddogfen hon, golyga “ddarparwr” y person canlynol:


1. Mewn perthynas â gwasanaeth cofrestredig:
 - y person(au) a gofrestrwyd yn ddarparwr y gwasanaeth, neu
 - yn achos sefydliad a gofrestrwyd yn ddarparwr y gwasanaeth, y cyfarwyddwr(wyr) a/neu'r person a enwebwyd yn unigolyn cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth yna.
2. O ran y gwasanaethau sy'n gorfod cael rheolwr yn ôl y gyfraith, mae'r cyfeiriadau at “ddarparwr” yn cynnwys y rheolwr a gofrestrir neu a reoleiddir mewn perthynas â'r gwasanaeth yna, oni bai ei bod hi'n eglur o gyd-destun y ddogfen hon bod gwahaniaeth rhwng y ddwy rôl o ran atebolrwydd.

Siart Lif 1: Sut y byddwn yn ymateb i achos o beidio â chydymffurfio



Noder: mae templedi ar gyfer yr adroddiad arolygu, yr hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, a llythyrau wedi'u cynhyrchu trwy gyfrwng cofnod electroniq. Cedwir templedi eraill ar iShare

Siart Lif 2: Sut rydym yn ymdrin â gwasanaeth sy'n peri pryder



Nodiadau ar y siartiau llif

Nodyn 1 – methiannau technegol neu unigol

Gall AGIC nodi dau fath o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau: methiannau technegol neu unigol, a methiannau sy'n deillio o ganlyniadau sâl neu fethiant systemig.

Am enghreifftiau, gweler Atodiad 1.

Methiannau nad ydynt yn cael effaith unionsyth neu sylweddol ar ganlyniadau cyffredinol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yw methiannau technegol neu unigol. Gall y methiannau hyn fod yn perthyn, er enghraifft, i gofnod, proses neu ddogfen sy'n anghyflawn, i bryder ar raddfa isel, neu i ddiffyg unigol a bychan yn narpariaeth y gofal. Dyma'r fath o beth y gellid ei unioni'n gyflym pan dynnir sylw darparwr cydwybodol ato.

Wrth nodi'r fath ddiffygion, bydd yr arolygydd yn hysbysu'r darparwr o'r diffyg cydymffurfio gan ddisgwyl y byddant yn cael eu hymdrin. Os na chaiff y materion eu datrys yn ystod yr arolygiad, bydd yr arolygydd yn cofnodi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn yr adroddiad arolygu.

Bydd disgwyl i'r darparwr gymryd cyfrifoldeb am fynd i'r afael â'r diffyg, gan wneud yr hyn sydd orau i gyflawni cydymffurfiaeth.

Dilynir trywydd y fath ddiffyg cydymffurfio mewn arolygiadau yn y dyfodol. Os na wnaed camau, yna bydd hynny'n cael ei gofnodi a bydd yr hysbysiad yn cael ei ailadrodd os bydd rhaid. Mae methiant i fynd i'r afael â'r fath faterion o ddiffyg cydymffurfio yn debygol o arwain at asesiad llai ffafriol yn yr adroddiad arolygu. Mae hyn oherwydd y bydd gallu a pharodrwydd darparwr i ymateb i ddiffyg cydymffurfio yn cael lle amlwg yn yr adroddiad.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yr arolygydd, trwy ymgynghoriad â'r tîm rheoleiddio, neu'r tîm rheoleiddio ei hun, yn penderfynu bod methiant parhaus i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio yn haeddu hysbysiad ffurfiol o ddiffyg cydymffurfio (gweler isod).

Nodyn 2 – Canlyniadau sâl a/neu fethiannau systemig

Mae'r ail fath o ddiffyg cydymffurfio yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau sâl a methiant systemig. Dyma lle mae canlyniadau sâl i bobl (yn oedolion neu'n blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl, megis yr hawl i fod yn ddiogel, i gael rheolaeth, neu i gael eich trin â pharch. Ymhlith yr enghreifftiau o ganlyniadau sâl, mae dirywiad yn iechyd corfforol pobl yn sgil esgeulustod mewn gofal a chymorth, pobl yn teimlo'n isel eu hysbryd ac yn aflonydd oherwydd diffyg cyfleoedd, diffyg dewis gan bobl neu drin pobl yn amharchus, a phobl yn profi anesmwythdra difrifol yn eu bywydau o ganlyniad i wasanaeth gwael gan y darparwr.

Pan fo systemau cynhaliol (ee polisïau, gweithdrefnau, trefniadau staffio, a systemau iechyd/diogelwch a systemau cynnal a chadw) yn ddiffygiol neu ddim yn gweithio'n iawn, yna ceir methiannau systemig. Mae'r methiannau

hyn yn aml yn perthyn i reolaeth wan neu ansicr, neu ddiffyg buddsoddi. Maent yn arwain at enghreifftiau cyson o ofal sâl i bobl, neu at risg uchel o ganlyniadau sâl iddynt.

Wrth ddod i benderfyniad ynghylch p'un a oes diffyg cydymffurfio ai peidio, bydd y Tîm Rheoleiddio yn ystyried yn bennaf y rhai sydd mwyaf bregus ac sydd â'r anghenion mwyaf, er mai lleiafrif bach ydynt efallai o'r rhai sy'n derbyn cymorth. Mae hyn oherwydd mai nhw sydd fwyaf agored i risg ac angen y mesurau diogelu mwyaf.

Yr ymateb arferol i'r fath hon o ddiffyg cydymffurfio fyddai hysbysu'r darparwr a chyflwyno **hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio**. Bydd y ffaith bod hysbysiad wedi'i gyflwyno yn cael ei gofnodi yn yr adroddiad arolygu.

Ar adegau, bydd amgylchiadau pan fydd angen newid y trothwy ar gyfer cyflwyno hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio, er enghraifft mewn ymateb i reoliadau newydd neu i faterion o bryder cenedlaethol sy'n brigo i'r wyneb. Bydd AGIC yn datblygu canllawiau ychwanegol mewn ymateb i'r fath amgylchiadau.

Bydd adegau o bosibl pan fydd newid o ran y rheolwr cofrestredig, neu fod y rheolwr cofrestredig yn absennol. Mae'r "**Canllawiau ar gyfer delio â rheolwyr absennol a phan fo swydd rheolwr yn wag**" yn esbonio'r amgylchiadau gwahanol pryd y gallai hyn godi, ac yn amlinellu'r egwyddorion y tu ôl i ddulliau AGIC a'r camau gweithredu gofynnol, a all gynnwys mwy o fonitro.

Gall AGIC ystyried cymryd camau gorfodi pe na bai rheolwr yn cael ei benodi, neu ei fod wedi'i benodi ond nad yw wedi cymryd y camau angenrheidiol i wneud cais am gofrestrriad ar ôl bod yn ei swydd am dri mis a mwy. Os na chyflwynwyd cais o fewn tri mis i hysbysu AGIC bod y rheolwr cofrestredig wedi gadael neu'n absennol, neu i'r dyddiad mae AGIC yn dod yn ymwybodol o'r newydd, yna dylai AGIC ystyried p'un a oes angen cynnal arolygiad pwyslais penodol er mwyn asesu'r effaith ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Nodyn 3 – Materion sy'n gofyn am gamau gweithredu brys

Pan fydd arolygwyr yn dod ar draws canlyniadau sâl iawn a pherygl difrifol i iechyd a lles pobl, yna mae'n bosibl y bydd angen cymryd camau gweithredu brys. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yr arolygwyr yn cysylltu'n syth, lle bo hynny'n bosibl, â'r Tîm Rheoleiddio am gyngor ac arweiniad ac, os oes angen, bydd yn trefnu cyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder.

Er y gall diffyg cydymffurfio fod yn amlwg, nid yw hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio yn cynnig ateb cyfreithiol ar unwaith i fynd i'r afael â'r pryderon. Gall fod sefyllfa pan fydd angen cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio ar unwaith (gweler Nodyn 4 am wybodaeth am hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio ar unwaith).

Gall y llwybr hwn hefyd gymryd i ystyriaeth y ffactorau ychwanegol canlynol a all fod yn berthnasol wrth ystyried p'un a ddylid cynnull cyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder a llunio cynllun gorfodi:

1. Bu hanes o ddiffyg cydymffurfio ac er bod y gwasanaeth bellach yn cydymffurfio, mae amheuaeth ynghylch gallu neu ymrwymiad y darparwr i gynnal cydymffurfiaeth.
2. Mae tystiolaeth i amau addasrwydd y darparwr.
3. Mae asiantaethau eraill megis y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y bwrdd iechyd perthnasol neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi mynegi pryderon difrifol ynghylch perfformiad y gwasanaeth ac wedi gweithredu protocolau, ee uwchgyfeirio pryderon, gosod embargo ar leoli pobl yno.

Ymhlith yr opsiynau ar gyfer gweithredu mae:

1) Gorfodi amodau ar unwaith (amrywio neu dynnu ymaith) neu atal ar unwaith

Wrth wynebu sefyllfa sy'n gofyn am un o'r opsiynau hyn, bydd AGIC yn hysbysu'r darparwr neu (pan na ellir cysylltu â'r darparwr yn syth) yr aelod uchaf o staff sydd ar gael, y bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyflwyno. Hyd yn oed petai'r darparwr yn cytuno ac yn cynnig cydymffurfio trwy gytundeb, dylid cyflwyno'r hysbysiad a rhoi ar waith unrhyw amod(au) sy'n effeithio ar y cofrestriad. Pe na bai darparwr yn cydymffurfio â'r amod(au), bydd yn euog o drosedd ac yn agored i gael ei erlyn. Mae'r hysbysiad yn esbonio hawl y darparwr i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambwr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol).

2) Cais i ganslo cofrestriad ar frys

Mae hwn yn fater mwy cymhleth. Gwneir pob ymdrech i siarad â'r darparwr ymlaen llaw ac i edrych ar opsiynau posibl eraill. Mae'n hanfodol bod cynlluniau wrth gefn ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac felly mae'n bwysig bod trafodaeth â chomisiynwyr er budd y bobl hynny.

Serch hynny, os ystyrir bod angen gweithredu ar frys, gellir dod â'r prosesau diffyg cydymffurfio i ben a chynnal cyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder, yn syth ar ôl neu yn ystod yr arolygiad.

Fel rheol, ni fyddwn yn derbyn cynnig gan ddarparwr i ganslo ei gofrestrriad yn wirfoddol ar ôl i Hysbysiad o Gynnig i Ganslo Cofrestriad gael ei gyflwyno, oni bai bod rhesymau cryf iawn dros wneud hynny. Pan fydd hyn yn digwydd, mae angen cytundeb y pennaeth adran.

Nodyn 4 – Hysbysiad o Ddiffyg Cydymffurfio

Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol. Mae'n dynodi bod pryderon sylweddol ynghylch lles pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Wrth benderfynu a ellir cyfiawnhau hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, mae'n bosibl y bydd AGIC yn ystyried hanes cydymffurfio'r gwasanaeth a dyfarniadau blaenorol ar ansawdd.

Mae hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio yn ddogfennau ynddynt eu hunain, yn annibynnol wrth adroddiadau arolygu. Gallant gael eu cyflwyno mewn ymateb i arolygiadau rheolaidd ac arolygiadau sy'n digwydd yn sgil pryderon a leisiwyd. Gellir eu cyflwyno cyn i adroddiad arolygu gael ei gwblhau a'u

cyflwyno hefyd heb i ymweliad arolygu ddigwydd (ee pan fo methiant parhaus i gynnal hunanasesiad blynyddol).

Bydd y dystiolaeth a gofnodir mewn hysbysiad yn fanwl ac yn benodol, gan ddangos pam bod AGIC wedi dod i'r casgliad bod achos o ddiffyg cydymffurfio. Fodd bynnag, ni fydd hysbysiadau'n cynnwys gwybodaeth ac iddi ddata sensitif. Bydd unrhyw gyfeiriadau at bobl benodol, neu fanylion am sylwadau a wnaed, yn cael eu cynnwys yn adroddiad cyfoes yr arolygydd yn dilyn yr arolygiad.

Bydd cyfeiriadau at feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr adroddiad arolygu yn cyfeirio'n fwy cyffredinol at ganfyddiadau'r arolygydd, heb gymaint o fanylion penodol.

Ar gyfer pob maes o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd, bydd yr hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn nodi yn gyntaf:

- **Y cam a gymerir:** h.y. beth ddylai'r darparwr ei wneud mewn perthynas â'r rheoliad penodol (ond heb bennu ateb penodol)
- **Amserlen ar gyfer ei gwblhau:** dd/mm/bb
- **Rhif y rheoliad:** Bydd y Tîm Rheoleiddio yn nodi pa reoliadau sydd fwyaf addas i gyfeiro atynt, yn ôl eu doethineb.

Mae'n bosibl i AGIC "hysbysu" darparwr am rai meysydd o ddiffyg cydymffurfio ac ar yr un pryd cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â meysydd eraill. Fodd bynnag, pan fydd gan wasanaeth nifer o feysydd o ddiffyg cydymffurfio, argymhellir yn gryf bod arolygwyr yn canolbwyntio ar y meysydd craidd, critigol sy'n cael yr effaith fwyaf ar les pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac ar y risgiau iddynt.

Yn dilyn derbyn hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, gall fod yn bosibl i ddarparwr gyflwyno tystiolaeth eu bod wedi cymryd camau gweithredu priodol ac wedi cyflawni cydymffurfiaeth o fewn yr amserlen (ee cofnodion hyfforddiant, archwiliadau cynlluniau gofal, neu waith trwsio i adeiladau).

Fodd bynnag, bydd yn rhaid i AGIC gael ei bodloni'n llawn bod cydymffurfiaeth wedi cael ei chyflawni. Os bydd **unrhyw** amheuaeth, bydd y Tîm Rheoleiddio yn cyflwyno llythyr i'r darparwr ac yn cynnal ymweliad pellach i wirio bod cydymffurfiaeth wedi cael ei chyflawni. Ran fynychaf, yn y fan hon, ni fydd hyn er mwyn cywain tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad troseddol ac felly ni fydd darpariaethau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, a'r Codau Ymarfer cysylltiedig, yn berthnasol.

Unwaith mae AGIC yn fodlon bod darparwr wedi cyflawni cydymffurfiaeth, anfonir llythyr i gadarnhau hyn. Gall berthyn i un elfen yn unig o hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio a bod elfennau eraill yn parhau heb eu datrys.

Os nad yw AGIC yn dal yn fodlon bod cydymffurfiaeth wedi ei chyflawni o fewn yr amser gofynnol, yn dilyn hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio ac ymweliad pellach, yna cymerir camau gweithredu pellach fel yr amlinellir yn Nodyn 5 isod. Gall fod adegau pan y bernir y byddai camau gweithredu pellach yn amhriodol neu'n wrthgynhyrchiol, ac yn yr achos yna, bydd y nodyn gwreiddiol

yn parhau'n "fyw" a chyda'r dyddiad gwreiddiol ar gyfer cydymffurfiaeth. Ni fydd AGIC yn cyflwyno hysbysiad pellach o ddiffyg cydymffurfio. Bydd y ffaith bod hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn parhau heb ei ddatrys yn cael ei gofnodi yn yr adroddiad arolygu.

Mae gan AGIC systemau ar waith i fonitro pa wasanaethau sydd wedi derbyn hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio, pa rai sydd heb eu datrys, ac am ba hyd y bu'r rhain heb eu datrys. Mae'r rhain yn ein galluogi i dargedu gwasanaethau sy'n methu â chyflawni cydymffurfiaeth.

Hysbysiad ar unwaith o ddiffyg cydymffurfio

Ar adegau, efallai y bydd angen cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio cyn bod yr adroddiad arolygu yn barod, er enghraifft pan fydd yr arolygydd yn nodi maes o ddiffyg cydymffurfio sy'n gofyn am gam gweithredu ar unwaith. Fodd bynnag, credir mai ond mewn lleiafrif o achosion y bydd angen hyn ac y dylid rhoi ystyriaeth yn hytrach i a) roi gwybod i'r darparwr ar lafar a chyfeirio at hyn yn yr adroddiad arolygu, a chyflwyno'r adroddiad a'r hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio mor fuan â phosibl, neu b) gosod amodau ar unwaith (fel y nodir yn Nodyn 3 uchod), er enghraifft pan fydd AGIC yn credu bod risg uniongyrchol i iechyd a lles defnyddwyr gwasanaeth.

Gall fod adegau pan fydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno heb fod arolygiad yn digwydd.

Gwelir enghreifftiau o Hysbysiadau o Ddiffyg Cydymffurfio ar tudalen 13.

Enghraifft 1

Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 20(1)(a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 mewn perthynas â staffio.

Mae hyn am nad oedd nifer y staff a oedd ar ddyletswydd yn y nos yn ddigonol i sicrhau iechyd a lles y cleifion.

Tystiolaeth

Cynhaliwyd arolygiad ar [dyddiad] ac archwiliwyd y dogfennau canlynol:

- *rotâu'r staff*
- *cynlluniau gofal cleifion*

Roedd y dogfennau hyn yn dynodi:

- *Nad oedd digon o staff ar ddyletswydd i oruchwylio'r niferoedd o gleifion yn ddigonol.*
- *Roedd yr ysbyty'n llawn hyd yr eithaf (24 o gleifion) ac roedd nifer o'r cleifion hyn yn cael eu goruchwylio'n amlach. Golygai hyn nad oedd digon o staff yn bresennol yn yr ysbyty i sicrhau iechyd a diogelwch y cleifion sy'n preswyllo yn yr ysbyty.*

Yr effaith ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yw bod risg sylweddol na fydd eu hanghenion gofal yn cael eu bodloni'n ddigonol.

Enghraifft 2

Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 6(1) a (3) – Datganiad o Ddiben

Mae meini prawf yn y Datganiad o Ddiben sy'n hepgor pobl sydd ag anabledd dysgu rhag cael eu derbyn i'r lleoliad, ond mae claf sydd â'r diagnosis yna yn derbyn llety yno ar hyn o bryd.

Tystiolaeth

Cynhaliwyd arolygiad dirybudd ar [dyddiad]. Archwiliwyd y canlynol:

- *Cynlluniau gofal cleifion*
- *Y Datganiad o Ddiben mwyaf diweddar*
- *Rhestr wirio wrth dderbyn cleifion*

Roedd y rhain yn dynodi:

- *Na ddylid rhoi llety i glaf os oes ganddo ddiagnosis o anabledd dysgu.*
- *Yng nghynllun gofal claf XX, nodir bod ganddo ddiagnosis o anabledd dysgu.*

Yr effaith ar y claf yw nad yw'n cael ei leoli'n briodol ac felly nid yw o reidrwydd yn mynd i dderbyn y gofal mwyaf addas. Mae effaith hefyd ar y cleifion eraill sy'n preswyllo yn y gwasanaeth.

Nodyn 5 – Cyfarfod darparwr

Rydym yn rhagweld mai cyfran fechan yn unig fydd dal heb gydymffurfio ar ôl i hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio gael ei gyflwyno.

Pan fydd gwasanaeth yn parhau heb gydymffurfio, bydd AGIC yn dechrau taflen gronolegol ac yn gofyn i'r darparwr fynychu **cyfarfod darparwr**³. Ar wahân i'r cam gweithredu brys dan Nodyn 3, mae hwn yn nodi dechreuad ein proses orfodi ffurfiol. Bydd disgwyl i reolwr cofrestredig y gwasanaeth fynychu hefyd.

Credwn y dylai'r darparwyr cofrestredig fod yn ddigon abl a chymwys i fynychu cyfarfodydd darparwr heb fod angen cefnogaeth allanol neu gyfreithiol. Serch hynny, mewn amgylchiadau eithriadol gall y darparwr wneud cais am gyfle i ddod â pherson i'r cyfarfod, yn ddibynnol ar gytundeb y cadeirydd.

Gofynnir i'r darparwr esbonio pam eu bod nhw'n parhau heb gydymffurfio a pha gamau a wnaed neu sy'n cael ei wneud ganddynt. Gall y cyfarfod arwain at nifer o ganlyniadau.

- Datrys y diffyg cydymffurfio
- Cytundeb na fydd AGIC yn cyfeirio'r cam gweithredu i lefel uwch ar hyn o bryd
- Y darparwr yn cyflwyno cytundeb ysgrifenedig
- Nodi'r gwasanaeth fel **gwasanaeth sy'n peri pryder** (gweler isod)

Mae cyfarfodydd darparwr yn bwysig iawn. Maent yn gyfle o bwys i'r darparwr ddangos ei ymrwymiad a'i allu i gyflawni cydymffurfiaeth. Mae darparwyr cyfrifol yn deall hyn ac yn ceisio gweithio'n adeiladol gydag AGIC ac yn mynychu cyfarfodydd pan ofynnir iddynt wneud hynny. Pan fydd darparwr yn gwrthod gwahoddiad i fynychu cyfarfod darparwr, bydd AGIC yn dilyn ein llwybr gorfodi ac yn gwneud trefniadau i gynnull cyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder i benderfynu pa gam a gymerir gennym mewn perthynas â'r ffaeleddau parhaus. Dylid pennu dyddiad i'r cyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder sy'n hwyrach na dyddiad unrhyw gyfarfod darparwr.

Ni fyddwn yn newid yr amserlen wreiddiol a osodwyd ar gyfer cyflawni cydymffurfiaeth. Cyfrifoldeb y darparwr yw sicrhau bod camau'n cael eu gweithredu a bod cydymffurfiaeth yn cael ei chyflawni. Byddai'r amserlen wreiddiol wedi adlewyrchu buddiannau pennaf y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn caniatáu digon o amser i'r darparwr ddatrys y diffyg cydymffurfio.

Yn dilyn y cyfarfod darparwr, bydd cadeirydd y cyfarfod yn ysgrifennu at y darparwr i grynhoi'r penderfyniad, gan nodi unrhyw bryderon sy'n parhau a'r

³ Yn achos sefydliadau, disgwylir fel rheol i'r Unigolyn Cyfrifol fynychu'r cyfarfod darparwr. Gall fod amgylchiadau pan y disgwylir i weithwyr eraill sydd â chyfrifoldeb dros ddarpariaeth y gwasanaeth dan sylw fynychu'r cyfarfod, yn ychwanegol i'r Unigolyn Cyfrifol, neu yn ei le. Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, pan nad yw'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn gyfarwyddwr ar y cwmni, neu fod y materion o ddiffyg cydymffurfio sydd dan sylw i'w priodoli i ymddygiad yr Unigolyn Cyfrifol ac felly y gofynnir i'r gyfarwyddwr(wyr) fynychu.

camau gweithredu a gytunwyd gan bob ochr, ynghyd ag amserlen a gytunwyd ar gyfer y camau hyn. Bydd y llythyr hwn yn gweithredu fel cofnod o'r cyfarfod. Bydd gan y darparwr gyfle i roi gwybod am unrhyw anghywirdebau ffeithiol neu gywiriadau mae'n dymuno iddynt gael eu hystyried. Dylid cyflwyno'r rhain o fewn deg diwrnod gwaith.

Credwn fod cyfarfodydd â darparwyr yn ffordd effeithiol o dynnu sylw at bryderon difrifol a sicrhau'r ymwymiad sydd ei angen i fynd i'r afael â meysydd o ddiffyg cydymffurfio. Dan rai amgylchiadau, efallai y bydd hi'n briodol trefnu cyfarfodydd ychwanegol i adolygu'r cynnydd neu i ymateb i amgylchiadau esgusodol, ee salwch darparwr.

Nodyn 6 – Gwasanaeth sy'n peri pryder

Mae AGIC yn cadw cofnod o **wasanaethau sy'n peri pryder**. Gwasanaethau yw'r rhain sy'n cynnig canlyniadau sâl i bobl neu sy'n gosod pobl dan risg annerbyniol, ac sy'n methu â mynd i'r afael â diffygion ac yn methu â chydymffurfio â rheoliadau.

Bydd pob gwasanaeth sy'n peri pryder yn destun cynllun gorfodi AGIC, a chedwir golwg cyson ar y cynlluniau hyn. Bydd y ffaith bod gwasanaeth yn cael ei ystyried yn "wasanaeth sy'n peri pryder" yn cael ei nodi mewn adroddiadau arolygu.

Pan na fydd gwasanaethau sy'n peri pryder yn cyflawni'r gwelliannau gofynnol, bydd AGIC yn sicrhau ei bod yn ystyried canslo cofrestriad y gwasanaeth.

Pan fydd gwasanaeth yn parhau heb gydymffurfio am gyfnod o 12 mis a mwy, er gwaethaf pob ymdrech gan AGIC i ennyn cydymffurfiaeth, yna rhoddir ystyriaeth ddwys i ganslo cofrestriad y gwasanaeth.

Darparwr sy'n peri pryder

Pan fydd darparwr yn gweithredu tri gwasanaeth neu fwy ar draws Cymru (o bosibl dan enwau cofrestru gwahanol), neu fod tystiolaeth i awgrymu bod methiant sefydliadol neu systemig, ee parthed hyfywedd ariannol, yna dylai pennaeth yr is-adran sy'n meddu ar y pryder pennaf gynnull cyfarfod "darparwr sy'n peri pryder".

Pan fydd gwasanaeth yn parhau heb gydymffurfio yn dilyn y cyfarfod darparwr, neu'n cael ei ystyried yn wasanaeth sydd â'r potensial i beri pryder, bydd AGIC yn cynnal **cyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder** mewnol.

Ni fydd y darparwr yn cael ei wahodd, ond bydd yn cael ei hysbysu bod y cyfarfod yn cael ei gynnal. Diben y cyfarfod yw cytuno ar gynllun gorfodi AGIC mewn ymateb i ddiffyg cydymffurfio.

Yn yr un modd, pan fydd ymholiadau'n sefydlu bod achos rhesymol i gredu bod person heb gofrestru mewn perthynas â gwasanaeth ac felly'n gweithredu'n anghyfreithlon, yna caiff cyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder ei gynnull.

Penderfyniadau ac ystyriaethau mewn cyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder:

Mae amryw o ganlyniadau posibl i'r cyfarfod a nifer o faterion sydd angen eu hystyried. Gellir cytuno ar fwy nag un dull o gymryd camau gweithredu a'u cymryd ar yr un pryd. Wrth ddod i benderfyniad, dylid ystyried yr effaith ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac ni ddylai anghyfleustra a gofid tymor byr rwystro cam a fyddai'n arwain at ganlyniadau gwell yn y tymor hir.

Disgrifir rhai o ganlyniadau posibl y cyfarfod isod.

a. Gosod neu beidio gosod y gwasanaeth ar y rhestr o wasanaethau sy'n peri pryder

Os oes pryderon yn parhau ynghylch canlyniadau sâl a dim rhagolygon y cyflawnir cydymffurfiaeth gynnar, yna bydd y gwasanaeth yn cael ei osod ar y rhestr o wasanaethau sy'n peri pryder.

b. Dim achos sifil neu droseddol ar hyn o bryd

Yn y cyfarfod, **rhaid** i AGIC roi ystyriaeth ddwys i weithredu ei phwerau rheoleiddiol a chael rheswm da dros beidio â'u gweithredu. Gellir dod i benderfyniad i beidio cymryd camau rheoleiddiol pellach oherwydd bod y gwasanaeth wedi cyflawni cydymffurfiaeth yn ddiweddar, wedi penderfynu cau, neu wedi ei werthu.

c. Achos sifil

Gall AGIC ymgymryd ag amryw o gamau mewn perthynas â'i phwerau sifil. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chofrestru'r unigolion sy'n gyfrifol am gynnal a rheoli gwasanaeth. Dan amgylchiadau sy'n gofyn am gamau brys, gall AGIC benderfynu defnyddio'i phwerau brys er mwyn gosod, dileu neu amrywio amodau cofrestriad, atal cofrestriad rhywun, neu geisio am ganslo cofrestriad ar frys.

Mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn rhai brys, gall AGIC benderfynu cyflwyno hysbysiad o gynnig i amrywio, dileu neu osod amodau ar gofrestrriad rhywun, neu atal neu ganslo cofrestriad rhywun. Dan yr amgylchiadau hyn, mae gan y person cofrestredig hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i AGIC.

d. Achos/ymchwiliad troseddol

Gall AGIC benderfynu bod achos rhesymol i gredu bod trosedd yn cael ei chyflawni neu wedi ei chyflawni, dan y Ddeddf neu reoliadau perthnasol. Os yw'r cyfarfod o'r farn y byddai'n gymesur dwyn achos cyfreithiol, gwneir penderfyniad i ymgymryd ag ymchwiliad yn unol â darpariaethau'r codau ymarfer perthnasol dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol. Dylai gwasanaethau cyfreithiol fod ynghlwm â'r ymchwiliad o'r cychwyn cyntaf.

Noder: Os penderfynir ar hyn, bydd hi'n bwysig ystyried darpariaethau'r codau ymarfer, dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, wrth gynnal ymchwiliadau a chyfarfodydd pellach fel rhan o'r dasg o gywain gwybodaeth.

Pan fydd ymchwiliad troseddol yn mynd rhagddo o ganlyniad i atgyfeiriad diogelu oedolion dan weithdrefnau diogelu oedolion Cymru gyfan, mae'n bosibl y bydd angen cynllunio'r ymchwiliad hwnnw gyda phartion eraill (ee yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol) ac ystyried yr angen am gytundeb ysgrifenedig.

Gellir cynnal cyfarfodydd “gwasanaeth sy'n peri pryder” pellach i adolygu cynnydd yr ymchwiliad.

Gwneir argymhelliad i barhau ag erlyniad i adran gwasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch dwyn achos yn unol â chod erlyn Llywodraeth Cymru.

Mae'n bosibl mai cyflwyno rhybudd fydd y canlyniad, neu barhau i ddwyn achos. Fel arall, mae'n bosibl y penderfynir peidio dwyn achos troseddol a bod angen rhoi ystyriaeth i ddull gwahanol.

e. Y dewisiadau i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gan AGIC, ond nad ydynt wedi eu cofrestru gydag AGIC

Caiff gwasanaethau'r GIG eu rheoleiddio, ond nid ydynt wedi eu cofrestru. Felly nid yw'r un dewisiadau gorfodi sifil neu droseddol ar gael.

Dan adrannau 72, 73, 74 a 75 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, mae gan AGIC y pwerau canlynol:

- i archwilio, copïo a chludo ymaith o'r safle unrhyw ddogfennau neu gofnodion (gan gynnwys cofnodion personol)
- i archwilio unrhyw eitem arall a'i chludo ymaith o'r safle
- i gyfweld ag unrhyw berson sy'n gweithio ar y safle neu unrhyw berson sy'n derbyn gofal iechyd yno ac sy'n cytuno i gael ei gyfweld
- i gynnal unrhyw archwiliad arall i gyflwr a rheolaeth y safle a'r driniaeth a gaiff pobl sy'n derbyn gofal yno
- i'w gwneud hi'n ofynnol i unrhyw berson sy'n meddu ar ddogfennau neu gofnodion ar y safle, neu sy'n atebol amdanynt, i'w cyflwyno
- mewn perthynas â chofnodion a gedwir ar gyfrifiadur, y pŵer i ofyn am y cofnodion mewn ffurf sy'n eu gwneud nhw'n ddarllenadwy ac yn hawdd i'w cludo ymaith
- i wirio unrhyw gyfrifiadur neu gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig sydd wedi cael ei ddefnyddio mewn perthynas â'r cofnodion dan sylw

Mae gan AGIC y pŵer hefyd i ofyn i rywun⁴ gyflwyno gwybodaeth, dogfennau, cofnodion (gan gynnwys cofnodion personol), neu eitemau eraill sy'n perthyn i ddarpariaeth gofal iechyd gan – neu ar ran – un o gyrff GIG Cymru, neu'n perthyn i gyflawni swyddogaethau un o gyrff GIG Cymru, ac sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol neu'n fuddiol i'w cael at ddibenion adrannau 72, 73, 74 a 75.

⁴ Y corff sy'n rhan o GIG Cymru, unrhyw berson sy'n darparu gofal iechyd ar ran un o gyrff GIG Cymru neu awdurdod lleol yng Nghymru, neu sy'n arfer eu swyddogaethau.

Yn Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Arolygiadau Gofal Iechyd) (Cymru) 2005, mae gan AGIC y pwerau canlynol:

- I ofyn i'r isod ddarparu esboniad, yn y cnaud neu'n ysgrifenedig, o unrhyw ddogfennau, cofnodion neu eitemau a arolygir, copi'r neu a ddarperir dan y Ddeddf:
 - un o gyrff GIG Cymru
 - cadeirydd, aelod, cyfarwyddwr, cyflogai, aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor un o gyrff GIG Cymru
 - darparwr gwasanaeth
 - cadeirydd, cyfarwyddwr neu gyflogai darparwr gwasanaeth
 - rhywun na enwir uchod ond sy'n cynorthwyo darparwr gwasanaeth i ddarparu gofal iechyd ar ran un o gyrff GIG Cymru
 - rhywun na enwir uchod ond sy'n cynorthwyo, wedi cynorthwyo neu'n mynd i gynorthwyo un o gyrff GIG Cymru i arfer ei swyddogaethau

Mae AGIC yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch uwchgyfeirio unrhyw bryderon a ganfyddodd. Os oes achos brys yn codi, gellir galw cyfarfod ar fyr rybudd. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli perfformiad y GIG ac sy'n gyfrifol am unrhyw ymyriad (yn dilyn cyngor gan AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru).

f. Camau eraill

Gall sefyllfaoedd amrywio'n fawr a gallant fod yn gymhleth iawn. Gall y cyfarfod ddynodi bod angen gwneud ymholiadau pellach cyn y gwneir unrhyw benderfyniad.

Gall fod opsiynau eraill y tu hwnt i achos troseddol neu sifil, neu'n ychwanegol iddo. Ymhlith enghreifftiau o gamau eraill mae cyflwyno “llythyr rhybudd difrifol”, gofyn am gytundeb ysgrifenedig gan y darparwr, hysbysu rheoleiddwyr eraill neu gyrff proffesiynol (ee y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth).

Cam gweithredu penodol er mwyn dod â mater i ddiwedd yw “llythyr rhybudd difrifol”, pan ystyrir y byddai'n anghymesur cymryd camau pellach, uwch. Gellid ei ddefnyddio ar gyfer methiant unigol, difrifol mewn gwasanaeth sydd fel arall yn cydymffurfio ar y cyfan.

7. Cynllun monitro/adolygu gwasanaeth sy'n peri pryder

Bydd y cyfarfod “gwasanaeth sy'n peri pryder” yn cytuno ar gynllun monitro a fydd yn cynnwys pa mor aml y cynhelir arolygiadau yn y dyfodol, a'u pwyslais, a chydweithio ag asiantaethau eraill a allai feddu ar drosolwg o'r gwasanaeth.

Bydd AGIC yn cynnal cyfarfodydd “gwasanaeth sy'n peri pryder” yn chwarterol er mwyn adolygu cynnydd. Bydd cyfarfodydd rheolwyr yn cael eu cynnal o leiaf pob chwarter ar gyfer pob gwasanaeth sy'n peri pryder.

Gwneir y penderfyniad nad yw gwasanaeth bellach yn peri pryder yn un o'r cyfarfodydd hyn. Caiff y darparwr a phartïon eraill sydd â diddordeb eu hysbysu o hyn yn ysgrifenedig wedi hynny.

Caiff unrhyw wasanaeth sy'n peri pryder ei adolygu'n rheolaidd, a **rhaidd** rhoi ystyriaeth ddwys i briodoldeb cadw'r gwasanaeth ar y gofrestr os ydynt yn parhau'n wasanaeth sy'n peri pryder am gyfnod hir.

Pan fydd gwasanaeth wedi'i dynnu oddi ar raglen fonitro gwasanaeth sy'n peri pryder, bydd AGIC yn ystyried a ddylid cynnal arolygiad. Os y cytunir ar hynny, dylai'r arolygiad gael ei gynnal o fewn chwe mis i ddyddiad ei dynnu oddi ar y rhaglen. Defnyddir yr arolygiad i roi sicrwydd bod camau wedi eu cymryd a'u cynnal i adfer y gwasanaeth.

Ymgysylltu â'r darparwr

Mae'n bwysig bod cyswllt uniongyrchol a gweithgar rhwng y darparwr ac AGIC. Disgwyliwn y bydd cyfarfod fel arfer gyda'r darparwr yn dilyn y cyfarfodydd/adolygiadau gwasanaeth sy'n peri pryder er mwyn esbonio'r canlyniad ac unrhyw oblygiadau. Os oes ymchwiliad troseddol yn mynd rhagddo, yna mae'n bosibl y bydd angen rhoi rhybudd i'r darparwr (neu'r rheolwr cofrestredig) o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol.

Yn ystod y cam hwn yn y broses (h.y. pan fydd gwasanaethau'n cael eu nodi'n rhai sy'n peri pryder), cydnabyddwn y byddai'r darparwr yn gallu elwa o gael cefnogaeth annibynnol neu eiriolaeth yn y cyfarfodydd. Fodd bynnag, byddwn yn dymuno cael ein hysbysu o flaen llaw ynglŷn â phwy fydd yn mynychu.

Cynllun wrth gefn

Pan fydd risg uchel i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu pan fydd y gwasanaeth yn "ansefydlog" (e.e. yn fregus yn ariannol), gellir rhoi cynllun wrth gefn ar waith. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw'n debygol y bydd gofyn i AGIC gymryd camau gweithredu brys.

Mae hyn yn galluogi AGIC i fod yn barod ac i gomisiynwyr a darparwyr gael rhybudd ac i baratoi o flaen llaw.

Cyfathrebu

Mae gwasanaethau sy'n peri pryder yn aml yn llygad y cyhoedd ac yn aml yn achos pryder i'r comisiynwyr. Mae'n bosibl y bydd angen i gyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder ystyried:

- P'un a oes rôl uniongyrchol gan AGIC wrth hysbysu pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu eu perthnasau/eiriolwyr o'r camau sy'n cael eu cymryd
- P'un a oes angen briffio'r Gweinidog a phwy fydd yn gwneud hyn
- P'un a oes angen hysbysu'r wasg neu baratoi'r safbwynt a gymerir

Bydd angen i'r cyfarfod ystyried hefyd sut y bydd yn cyfathrebu â phartïon eraill sydd â diddordeb.

Mae'n bwysig nodi y bydd comisiynwyr yr awdurdod lleol a'r GIG bob amser yn cael eu hysbysu pan gaiff gwasanaethau sy'n peri pryder eu nodi. Bydd unrhyw adroddiadau arolygu a gynhyrchir yn ystod yr amser hwn yn cyfeirio'n benodol at y ffaith bod y gwasanaeth yn cael ei ystyried yn un sy'n peri pryder.

Dolen i'r cofrestriad

Mae perthynas agos rhwng ymagwedd AGIC at ddiffyg cydymffurfio a'i phrosesau cofrestru. Yn aml, mae gan wasanaethau sy'n methu broblemau eraill ar yr un pryd mewn perthynas â diffyg cydymffurfio a phryderon am gofrestriad (megis methiant wrth gael rheolwr cofrestredig neu bryderon ynghylch pwy mewn gwirionedd sy'n "rhedeg y busnes"). Mewn achosion o'r fath, gall cyfarfodydd gwasanaeth sy'n peri pryder gipio'r agweddau hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau wedi'u cydgysylltu.

Camau ynghylch gwasanaethau anghofrestredig

Pan fo achos rhesymol i gredu bod person yn rhedeg neu'n rheoli gwasanaeth yn anghyfreithlon heb gofrestriad mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw, bydd AGIC yn cynnal cyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder.

Bydd y cyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder cychwynnol yn debygol o ganolbwyntio ar gywain tystiolaeth a chynllunio'r ymchwiliad. Nid oes rheidrwydd y bydd y cyfarfod yn arwain at benderfyniad i restru'r gwasanaeth fel un sy'n peri pryder ar yr adeg hon, gan ddibynnu ar y risg ymddangosiadol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Bydd y cyfarfod hefyd yn ystyried a yw gwasanaeth yn disgyn o fewn y diffiniad cofrestru perthnasol, a'r angen i hysbysu'r person o dan sylw ei fod mewn perygl o gael ei erlyn os yw'n parhau i redeg/rheoli heb gofrestriad, ynghyd â'r angen i hysbysu'r person am yr angen i gwblhau ffurflen gais ac ymhle i gael gafael ar un.

Pan fydd gan AGIC achos rhesymol i gredu bod person yn gweithredu'n groes i hysbysiad gorfodi, bydd y mater yn esgor eto ar gyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder. Bydd y cyfarfod yn ystyried y camau sydd i'w cymryd, fel y nodir uchod. Bydd angen i ymchwiliad ynghylch person yn gweithredu'n groes i hysbysiad gorfodi ystyried darpariaethau'r codau ymarfer perthnasol dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol.

Darparwyr sy'n gweithredu nifer o wasanaethau sy'n peri pryder

Efallai y bydd enghraifft o ddarparwr sy'n rhedeg nifer o wasanaethau sy'n peri pryder. Yn aml, bydd y fath ddarparwyr yn cyfnewid adnoddau (ee rheolwyr, staff) rhwng gwasanaethau i gynnig gwelliannau dros dro i un gwasanaeth, er anfantais i un arall. O ganlyniad nid yw'r canlyniad yn cael ei gynnal. Mae'n bwysig bod camau gweithredu AGIC wedi'u cydgysylltu ac yn rhoi ystyriaeth i'r gweithgaredd busnes ehangach, a bod yr ymwneud â'r darparwr yn mynd i'r afael â rheolaeth yr holl fusnes ac nid gwasanaethau unigol yn unig.

Pan fydd darparwr yn gweithredu tri gwasanaeth neu fwy ar draws Cymru (o bosibl dan enwau cofrestru gwahanol), bydd AGIC yn cynnal cyfarfod darparwr sy'n peri pryder.

Diben y cyfarfod yw pennu p'un a yw'r camau gorfodi mewn perthynas â phob lleoliad yn ddigonol neu b'un a oes pryder sylfaenol ynghylch ffitrwydd a rheolaeth y darparwr sy'n haeddu camau gweithredu cydgysylltiedig, ffurfiol, yn ychwanegol i'r hyn sy'n cael ei gymryd yn erbyn gwasanaethau unigol.

Bydd y ffaith bod darparwr yn cael ei ystyried gan AGIC yn “ddarparwr sy'n peri pryder” yn cael ei chofnodi mewn unrhyw adroddiadau arolygu.

Atodiad 1

Enghreifftiau o risg isel – eu hysbysu yn yr adroddiad

1. Roedd gweithwyr gofal mewn ysbyty iechyd meddwl/anabledd dysgu i gyd wedi cael hyfforddiant mewn perthynas â diogelu pobl ac yn gallu esbonio sut i adrodd honiad o gamdriniaeth. Mae'r polisi wedi'i ddiweddarau i gynnwys rhif ffôn newydd y gwasanaethau cymdeithasol, ond nid yw'r fersiwn hon wedi'i lledaenu ymhlith y staff. Dywedodd staff y gallai hyn fod wedi gohirio'u gallu nhw i wneud atgyfeiriad ar unwaith at dîm diogelu'r awdurdod lleol. Dywedodd y rheolwr y bydd hi'n lledaenu'r polisi diweddaraf ar unwaith. Bydd hefyd yn gweithredu proses adolygiadau rheolaidd.
2. Sylwodd arolygydd a oedd yn ymweld ag ysbyty aciwt, gyda gwelyau dros nos, bod rhai o deils y llawr wedi'u difrodi ac yn beryglus. Gweithredodd y staff ar unwaith i osod tâp ar y teils a ddifrodwyd ac i drefnu bod gwaith trwsio mwy parhaol yn digwydd yr wythnos ganlynol.
3. Ar ddiwrnod ymweliad â hosbis ar gyfer wyth o bobl, gwelwn fod dau aelod o staff yn llai ar ddyletswydd nag sydd ar y rota. Dywed y rheolwr fod salwch stumog o gwmpas a bod tri aelod o staff wedi ffonio i ddweud eu bod yn sâl. Roedden nhw wedi dod o hyd i staff cyflenwi ar gyfer un aelod ond nid ar gyfer y lleill. Mae ganddynt weithdrefnau clir ar gyfer dod o hyd i staff asiantaeth, ac mae eu cofnod staff yn dangos mai'n anaml iawn maen nhw'n brin o ran niferoedd staff. Ar y diwrnod dan sylw, cafodd rhai o'r gweithgareddau eu haildrefnu fel bod gan yr holl breswylwyr gymorth digonol.

Enghreifftiau o risg uchel – gall fod angen hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio

1. Nid yw'r ffenest mewn ystafell preswlydd mewn ysbyty iechyd meddwl/anabledd dysgu yn cau'n iawn, ac nid yw'r gwresogydd yn gweithio. Ceisiodd y preswlydd fynegi'r mater i'r staff yn yr ysbyty, gan ddweud ei fod yn oer drwy'r amser. Dywedon nhw wrtho i stopio cwyno a gwisgo siwmpwr arall. Ar ôl iddo fynd yn sâl ac iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty gyda haint ar y frest, mynegodd ei deulu'r mater gyda staff, ond ni wnaethon nhw gydnabod hyn fel cwyn.
2. Cedwir claf mewn ysbyty iechyd meddwl/anabledd dysgu diogelwch isel, ac ar hyn o bryd mae'n cael ei arsylwi ar raddfa pedwar i un. Mae'r claf wedi ymosod droeon ar ei gyd-gleifion ac aelodau staff, ac oherwydd hyn mae wedi cael ei ymwahanu am y pythefnos diwethaf. Mae'r rheolwr wedi mynegi pryderon na all yr ysbyty ddiwallu anghenion y claf.
3. Yn ystod arolygiad mewn clinig annibynnol, sylwodd arolygydd nad oedd rhai eitemau o offer – y gellir eu hailddefnyddio – wedi cael eu dadheintio, a'u bod wedi cael eu defnyddio gan ymarferwyr.